OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 784 (Cy.81)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Diwygio) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*16 Mawrth 2004*
Yn dod i rym - -	*1 Medi 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 15(2), 17(2)(a), 21(2)(a) a 45(3) o Ddeddf Arolygu Ysgolion 1996(**1**), a pharagraffau 2(2) a 3(1) o Atodlen 4 iddi, ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**).

Enw, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Diwygio) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 1 Medi 2004.

(2) Maent yn gymwys i Gymru yn unig.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 1998

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 1998(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 7(2) —

(a) yn lle'r geiriau "five weeks" rhowch y geiriau "35 working days", a

(b) dilëwch y geiriau ", or, where it is necessary to provide a translation into Welsh or English, the period of seven weeks from that date".

(3) Yn rheoliad 8(1) —

(a) yn lle'r gair "forty" rhowch y geiriau "forty five", a

(b) dilëwch y geiriau ", or where it is necessary to provide a translation into Welsh or English, the period of forty five working days from that date".

(4) Yn rheoliad 13(2) —

(a) yn lle'r geiriau "five weeks" rhowch y geiriau "35 working days", a

(**1**) 1996 p.57. I gael ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 46(1).
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1998/1866, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1999/1440, 2001/3710 ac adran 73 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21).